



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



## Agoriad swyddogol ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd yr A487

Chwefror 2022



## Rhagair gan Vaughan Gething AS Gweinidog yr Economi a Lesley Griffiths AS y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Mae cwblhau ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd yr A487 yn newyddion da iawn i gymunedau lleol yr ardal ac i'r gogledd.

Mae'r ffordd osgoi wedi'i chwblhau yn gynnwys a'r gwaith wedi parhau'n ddiogel gyda mesurau diogelu ar waith drwy gydol pandemig Covid-19.

Mae wedi rhoi hwb i'r economi leol yn ystod y cyfnod adeiladu, a bydd y gwell cysylltedd y bydd yn ei ddarparu i fusnesau yn Ystad Cibyn, ac ymhellach yn dod â mwy o fudd i economi'r gogledd-orllewin.

Mae bron i £70m wedi'i wario ar fusnesau yng Nghymru ac o hynny cafodd £12m ei wario ar fusnesau bach i ganolig. Gwariwyd hefyd £2m gan y gweithlu adeiladu mewn siopau, busnesau a gwasanaethau lleol yn ystod y cyfnod adeiladu.

Yn ystod y cam adeiladu daeth 93% o'r gweithlu o ardal y gogledd, a 31% ohonynt yn byw o fewn radiws o 10 milltir. Cyflogwyd a hyfforddwyd 36 o raddedigion a phrentisiaid a chafodd 15 o bobl brofiad gwaith. Roedd cyfartaledd o 160 o bobl yn gweithio ar y cynllun ar unrhyw adeg yn ystod y cam adeiladu.

Gwnaed ymdrech fawr i leihau effaith amgylcheddol y cynllun cymaint â phosibl, ac mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i wella bioamrywiaeth yn yr ardal, gan gynnwys manau croesi diogel ar gyfer bywyd gwylt y gwyddom eu bod yn cael eu defnyddio.

Mae perthnasoedd rhagorol hefyd wedi'u datblygu a'u cynnal gyda'r gymuned leol, y cyngor a rhanddeiliaid yn ystod y gwaith adeiladu. Mae effaith gadarnhaol y cynllun wedi cynnwys cefnogi busnesau lleol a chyflogaeth leol ynghyd ag ymgysylltu â'r gymuned a chynnig cefnogaeth i elusennau lleol.

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi bod yn rhan o gyflawni'r cynllun.

### Cynnwys

Rhagair	2
Cefndir y cynllun	3
Disgrifiad o'r cynllun	4
Teithio Llesol	5
Amgylcheddol	6
Diogelwch	12
Cefnogi amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	14
Ymgysylltu â'r Gymuned	15
Partneriaid y cynllun	20
Diolchiadau	21

## Cefndir y cynllun

Mae Cefnffordd yr A487 yn rhan o'r rhwydwaith ffyrdd strategol yn y gogledd sy'n cysylltu â choridor yr A55 ymhellach ar hyd yr arfordir. O'r herwydd, roedd yr A487 yn ardal Caernarfon yn ffurfio man cyfyng ar y rhwydwaith gyda rhannau gwell o'r ffordd ar y naill ochr a'r llall. Roedd diffyg seilwaith ffyrdd o ansawdd cyson hefyd yn llesteirio datblygiad economaidd pellach yn y rhanbarth ehangach. Mae'r A487 presennol yn dioddef yn rheolaidd o dagfeydd traffig ac yn torri cysylltiad nifer o gymunedau sy'n effeithio ar ansawdd bywyd cyffredinol trigolion lleol sy'n achosi anawsterau o ran mynediad i ysgolion a chyfleusterau cymunedol eraill, mae hanes hefyd o ddiwyddiadau traffig a'r defnydd o ffyrdd gwledig lleol er mwyn osgoi'r A487. Mae cynnal a chadw'r A487 bresennol yn anodd oherwydd ei bod yn gul a'i natur drefol.

Mae ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd wedi'i datblygu, ei dylunio a'i hadeiladu ar gyfer Llywodraeth Cymru gan dîm prosiect aml-ddisgyblaeth sy'n cynnwys Balfour Beatty Jones Bros Civil Engineering UK (adeiladu), WSP TACP Brython (dylunio), Arcadis (cynghorydd masnachol) a Ramboll (cynghorydd technegol)

Datblygwyd y cynllun i fodloni 5 amcan:

- Lleihau nifer y cerbydau sy'n mynd drwy gymunedau preswyl gan gynnwys Llanwnda, Dinas, Bontnewydd a Chaernarfon
- Lleihau damweiniau ar yr A487
- cynyddu capasiti llwybrau amgen i wella cadernid y rhwydwaith
- Lleihau amseroedd teithio rhwng Llanwnda a Phlas Menai
- Lleihau amseroedd teithio rhwng Llanwnda a Chaernarfon.



### Llinell amser

<b>2010 i 2011</b>	Ymarfer ymgynghori cyhoeddus
<b>Gwanwyn 2013</b>	Cyhoeddi'r ffordd a ffefrir
<b>Diwedd 2014</b>	Penodi contractwr
<b>Haf 2015</b>	Ymchwiliad safle ac arolygon
<b>Diwedd 2015</b>	Dyluniad rhagarweiniol
<b>Hydref 2016</b>	Arddangosfa gorchmynion
<b>Haf 2017</b>	Ymchwiliad lleol cyhoeddus
<b>Dechrau 2019</b>	Dechrau adeiladu'r ffordd osgoi
<b>Dechrau 2022</b>	Agor y ffordd osgoi



## Disgrifiad o'r cynllun

Mae'r prosiect priffyrdd gwerth £139 miliwn yn cynnwys priffordd 9.8km newydd sy'n dechrau ar gylchfan y Goat (cyffordd yr A499/A487) ac sy'n dod i ben wrth Gylchfan Plas Menai.

Mae'n ffurfio ffordd osgoi orllewinol i Lanwnda, Dinas a Bontnewydd cyn croesi'r A487 presennol i fynd i'r de o Chwarel Caernarfon. Yna mae'n croesi Afon Seiont ac yn mynd i'r de o Ystâd Ddiwydiannol Cibyn i gyffordd â'r A4086. Ar ôl croesi'r B4366 mae'r llwybr yn disgyn yn serth i Gylchfan Plas Menai.

Mabwysiadwyd safon cerbyttffordd 2+1, sy'n cynnwys dwy lôn yn teithio i un cyfeiriad ac un lôn i'r cyfeiriad arall, gan roi cyfleoedd goddiweddyd i gyfeiriad y ddwy lôn ac yn gwahardd goddiweddyd yn y lôn sengl. Darparwyd dwy gilfan, un i bob cyfeiriad.

Mae 17 o strwythurau mawr sy'n cynnwys tri strwythur trosbont sy'n cario ffyrdd ymyl lleol dros y ffordd osgoi newydd, 12 strwythur tanbont (gan gynnwys croesfan dros Reilffordd Ucheldir Cymru), traphont 260m dros Afon Gwyrfaï a thraphont 148m dros Afon Seiont. Yn ogystal â'r prif strwythurau, mae cyfanswm o 25 cwlferd ychwanegol sy'n mynd â chyrsgiau dŵr a ffosydd sy'n bodoli eisoes ar draws y ffordd osgoi, a nifer o'r cwlfertau wedi'u cynllunio a'u hadeiladu'n benodol i sicrhau y bydd mamaliaid yn gallu croesi'r ffordd osgoi yn ddiogel.

Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys adeiladu tair cylchfan newydd ym Meifod, Cibyn a Bethel, ad-drefnu cylchfannau Plas Menai a'r Goat yn sylweddol yn ogystal â 14 o ffyrdd ochr leol presennol. Dyma'r cynllun priffyrdd mwyaf yn y gogledd.



Y draphont yn croesi Afon Seiont yn ystod y gwaith adeiladu, trawst dwfn 2m yn cael ei godi i'w safle gan ddefnyddio craen symudol 750t.

## Teithio llesol

Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ar Deithio Llesol, mae dyluniad y cynllun wedi ymgorffori Darpariaethau Teithio Llesol sylweddol. Bydd hyn yn hyrwyddo'r defnydd o gerdded a beicio, sy'n cynnig manteision iechyd ac amgylcheddol ac yn cyfrannu at ddyheadau Llywodraeth Cymru ar y Nodau Llesiant. Yn ystod y cyfnod adeiladu, bu tîm y prosiect yn gweithio'n agos gyda Sustrans a Grwpiau Buddiannau Defnyddwyr Di-fodur eraill i gyflawni amrywiaeth o welliannau i'r rhwydwaith lleol. Gwnaed yr ymgysylltu hwn mewn fforwm chwarterol gyda'r cynrychiolwyr hynny'n cael eu gwahodd i swyddfeydd y safle neu o fis Mawrth 2020 ar ffurf cyfarfodydd Teams/Zoom.

Mae'r darpariaethau hynny a'r gwelliannau dilynol yn cynnwys y canlynol:

- Darparu llwybr teithio llesol newydd o fewn y cynllun ar y B4366 rhwng Bethel a Chaernarfon i gyd-fynd â gwelliannau Cyngor Gwynedd i Bethel. Bydd hyn yn annog defnyddio beicio/cerdded fel modd amgen rhwng y cymunedau (gweler isod).



- Darparu gwelliannau i Lôn Las Menai yng nghyffiniau Cylchfan Plas Menai drwy symud manau cyfyng/manau sy'n culhau presennol a darparu croesfan well a mwy diogel i bob defnyddiwr ar draws y fynedfa i Blas Llanfair (gweler isod).



- Croesfan twcan newydd ar gyfer Lôn Eifion ar yr A487 i Borthmadog – Mae hon bellach yn groesfan ddiogel i bob defnyddiwr sy'n dymuno teithio i'r de a'r gorllewin.
- Croesfan Newydd i Lôn Eifion ar yr A487 i Bontnewydd – Mae hon yn rhoi blaenoriaeth ddiogel newydd i holl ddefnyddwyr Lôn Eifion.
- Strategaeth Arwyddion Manylach ar gyfer Lôn Eifion a Llwybrau eraill ar gyfer defnyddwyr di-fodur rhwng Bontnewydd a Chaernarfon. Unwaith eto, bydd hyn yn annog cymunedau lleol i ddefnyddio beicio/cerdded fel ffordd o deithio.
- Troedffordd newydd ar hyd yr A487 sydd wedi'i israddio yng Nghylchfan Meifod yn ogystal â defnyddio'r ffordd segur ar gyfer ffordd amgen i'r Gylchfan o Bontnewydd.
- Mae'r gwaith o ddylunio'r seilwaith yn darparu cyfleodd i Gyngor Gwynedd gyflwyno teithio llesol o fewn Bontnewydd a Chaernarfon. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod digon o le ar gyfer ffyrdd teithio llesol yn y dyfodol ac mai ychydig iawn o waith ail-wneud fydd ei angen ar y seilwaith a adeiladwyd fel rhan o'r ffordd osgoi.

## Amgylcheddol

Mae'r cynllun yn mynd drwy dirwedd gymhleth a deniadol gyda thopograffeg amrywiol a gorchudd tir amrywiol, sy'n gyfoethog mewn cynefinoedd ecolegol ac archaeoleg. Datblygwyd dulliau dylunio ac adeiladu'r cynllun yn ofalus mewn ymateb i'r lleoliad penodol a sensitif hwn. Roedd hyn yn cynnwys diogelu a gwella bioamrywiaeth, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru), gyda mesurau fel diogelu coed a chynefinoedd presennol; creu coetir, gwrychoedd a glaswelltir blodau gwylt; darparu blychau ystlumod ac adar; dulliau croesi ar gyfer bywyd gwylt a ffensys canllaw; a goleuadau ecolegol sensitif.

Mae 22 cwlfert sy'n mynd â chyrsgiau dŵr a ffosydd sy'n bodoli eisoes ar draws y ffordd osgoi. Mae'r rhain wedi'u cynllunio a'u hadeiladu i sicrhau y bydd mamaliaid yn gallu croesi'r ffordd osgoi yn ddiogel. Ynghyd â hyn mae naw strwythur tanbont bocs, tri strwythur trosbont, dwy gwater gwartheg a dwy draphont, sydd i gyd yn cyfrannu at daith y llwybr drwy'r amgylchedd sensitif hwn, sy'n gartref i nifer o rywogaethau bywyd gwylt gwarchoddedig.

Er mwyn sicrhau nad yw'r cyrsgiau dŵr sy'n derbyn yn cael eu llethu o dan amodau stormus, bydd y rhwydwaith draenio helaeth y ffordd osgoi newydd yn bwydo i 14 o byllau arafu newydd, a fydd hefyd yn rheoli llygredd os bydd digwyddiad amgylcheddol ar y ffordd osgoi, yn ogystal â chreu cynefin newydd gwerthfawr i fywyd gwylt.

Mae gwaith ffensio sylweddol wedi'i wneud ar y cynllun, gan gynnwys diogelu stoc, diogelu dyfrgwn a rhwystrau diogelwch. Mae gwaith tirlunio a phlannu amgylcheddol helaeth hefyd wedi'i wneud, a fydd yn lleihau effaith weledol y ffordd osgoi ar ei hamgylchoedd gwledig.

Mae ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd yn ddatblygiad sylweddol yn y gogledd-orllewin ac mae'n sicrhau manteision hirdymor drwy blannu lliniaru helaeth a gwelliannau amgylcheddol.



Dyfrgi



Ystlum Pipistrelle Cyffredin



Llygod y Dŵr

## Tirwedd ac Effeithiau Gweledol

Roedd effeithiau'r cynllun ar leoliad y dirwedd a thrigolion cyfagos yn ffactorau allweddol yn yr asesiad a'r dyluniad amgylcheddol. Ymhlith y mesurau lliniaru i leihau effeithiau andwyol mae plannu ar gyfer sgrinio ac integreiddio. Dylanwadodd ystyriaethau tirwedd a gweledol ar ddyluniad strwythurau a thriniaeth llethrau arglawdd, toriadau creigiau, cyrsiau dŵr a phyllau.

Mae plannu'r cynllun yn cynnwys tua 170,000 o blanhigion, sy'n darparu tua 14 hectar o rywogaethau brodorol, coetiroedd a phrysgwydd newydd, yn ogystal â thros 20 cilometr o wrychoedd newydd. Diogelwyd coed aeddfed o fewn y cynllun yn ystod y cyfnod adeiladu i'w cadw, a cafwyd ardaloedd cyfagos o goed, coetiroedd a gwrychoedd presennol er budd hirdymor hefyd.

Datblygwyd y dyluniad plannu hefyd ar gyfer lliniaru ecolegol.



Plannu coetiroedd helaeth sy'n darparu sgrinio gweledol a chreu cynefinoedd.

## Ansawdd Aer

Rhagwelir y bydd cynllun y ffordd osgoi yn cael effaith fuddiol ar ansawdd aer o ran iechyd pobl. Mae hyn oherwydd aiddosbarthu traffig o'r A487 drwy Gaernarfon, Bontnewydd a Dinas, ardal gymharol boblog, ar y ffordd osgoi, sy'n rhedeg yn bennaf drwy ardaloedd gwledig, tenau eu poblogaeth.

Heb y cynllun, byddai'r crynodiadau a ragwelir o nitrogen deuocsid cymedrig blynyddol yn yr ardal yn amrywio o isel iawn yn yr ardaloedd gwledig, ymhell o'r prif ffordd, i yn agos at neu ychydig yn uwch na'r amcan ansawdd aer ar hyd yr A487 drwy Gaernarfon.

Gyda'r cynllun ar waith, mae'r crynodiadau a ragwelir yn llawer is na'r amcan cymedrig blynyddol ym mhob derbynnydd. Mae pob risg o ormodiant o ran amcanion ansawdd aer ar gyfer diogelu iechyd pobl yn cael ei ddileu drwy weithredu'r cynllun.

## Hawliau tramwy cyhoeddus

Cafodd llawer o hawliau tramwy cyhoeddus eu dargyfeirio yn ystod y gwaith adeiladu. Lle bo'n briodol, mae'r rhain wedi'u hailagor, ac mae llawer bellach yn cysylltu â rhannau newydd o lwybrau amlbwrpas sy'n croesi'r cynllun drwy bontydd neu danffyrdd.

## Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth

Mae'r cynllun yn mynd drwy gynefinoedd y gwyddom eu bod yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau a warchodir gan gynnwys ymlusgiaid, adar, ystlumod, llygod y dŵr, dyfrgwn a physgod. Er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn yn ystod y gwaith adeiladu, paratowyd a goruchwyliwyd trwyddedau rhywogaethau a warchodir gan dîm o arbenigwyr, gan gynnwys Clerc Gwaith Amgylcheddol ar y safle. Roedd rhaglen helaeth o arolygon monitro yn cyd-fynd â hyn.

Mae lliniaru ecolegol yn cynnwys: 27 man croesi diogel ar gyfer bywyd gwyllt, gan gynnwys pedwar wedi'u darparu'n benodol ar gyfer ystlumod; ffensys sy'n gwrthsefyll dyfrgwn a phibellau a silffoedd sych i ddyfrgwn; bafflau pysgod a silffoedd llysywennod ifainc; 49 o flychau ystlumod, ffensys canllaw ystlumod a goleuadau sy'n addas i ystlumod; draeniad sy'n addas ar gyfer amffibiaid; a 32 hectar o laswelltir sy'n llawn blodau gwyllt, gan gynnwys chwe hectar wedi'u creu o wair gwyrdd a gasglwyd yn lleol.

Mae gwelliannau ecolegol pellach yn cynnwys pyllau bywyd gwyllt, blychau adar, creu cynefinoedd llygod dŵr, a gaeaf dai i ymlusgiaid. Trwy'r cynllun datblygwyd manylyn ffens newydd sy'n gwrthsefyll dyfrgwn, a gwnaed ymchwil i amffibiaid mewn draeniau priffyrdd a dulliau arolwg ystlumod.

Bydd perfformiad lliniaru ecolegol a thirwedd yn cael ei fonitro am bum mlynedd ar ôl ei adeiladu er mwyn sicrhau bod y lliniaru'n effeithiol. Rydym eisoes wedi cofnodi dyfrgwn ac ystlumod Pedol Lleiaf yn defnyddio manau croesi bywyd gwyllt: [A487 ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd cwlfertau bywyd gwyllt](#)



Dau o'r 49 o flychau ystlumod a godwyd fel rhan o'r cynllun.



Mae cwlfer Afon Rhyd yn cynnwys bafflau pysgod a matiau llysywennod ifanc i ganiatáu i bysgod a llyswennod mudol fudo i fyny'r afon.

## Sŵn a Dirgryniad

Cynhaliwyd gwaith monitro sŵn a dirgryniad helaeth drwy gydol y cynllun gan ein Tîm Amgylcheddol i helpu i fonitro a lleihau effeithiau ar eiddo preswyl cyfagos. Mewn lleoliadau lle'r oedd gan y naill newidyn neu'r llall y potensial i fod yn fwy na'r paramedrau cyfreithiol, defnyddiwyd strategaethau lliniaru ymlaen llaw i leihau effeithiau negyddol i'r bioamrywiaeth gyfagos a phreswylfeydd lleol – roedd hyn yn cynnwys llai o amser gan ddefnyddio offer. Fel prosiect, defnyddiwyd offer sŵn isel a choed wedi'u plannu'n strategol hefyd i leihau effeithiau sŵn ar breswylwyr. Dangosodd data monitro sŵn a dirgryniad na wnaeth y gwaith fynd yn fwy na'r codau ymarfer adeiladu ar unrhyw adeg. 8



## Amgylchedd dŵr

Mae'r cynllun wedi'i leoli mewn ardal sy'n cynnwys cyrsiau dŵr wyneb a safleoedd gwarchoddedig o bwysigrwydd uchel, cyrff dŵr daear ac ardaloedd lle mae perygl llifogydd wedi'u nodi. Mae'r cynllun yn croesi chwe phrif afon (Afon Rhyd, Afon Plas, Afon Gwyrfai, Afon Rhosdican, Afon Seiont ac Afon Cadnant) yn ogystal â nifer o gyrsiau dŵr cyffredin.

Mae strategaeth ddraenio wedi'i rhoi ar waith i reoli maint ac ansawdd y dŵr drwy gyflwyno mesurau lliniaru megis pantiau, rhwydweithiau pibellau draenio, ffosydd draenio, cwlfertau a phyllau arafu/trin ar draws hyd y cynllun.

Yn ystod y gwaith adeiladu, gweithredwyd mesurau lliniaru i leihau effaith rhyddhau gwaddodion ar ansawdd dŵr, a oedd yn cynnwys defnyddio ffensys silt geowead, torri ffosydd a gwirio argaeau, tanciau sefydlogi, a bêls gwellt. Cynhaliwyd gwaith monitro ansawdd dŵr yn rheolaidd drwy gydol y gwaith adeiladu i nodi unrhyw ardaloedd sy'n achosi problemau.

Cynhaliwyd cyswllt agos â Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cyfnod dylunio y cynllun a thrwy'r cyfnod adeiladu, er mwyn sicrhau bod y mesurau lliniaru amgylcheddol yn addas ac yn ddigonol ar gyfer diogelu'r amgylchedd dŵr.

Mae dyluniad y cynllun wedi ystyried modelu llifogydd a chynnydd posibl mewn perygl o lifogydd. Mae enghraifft yn cynnwys adeiladu'r draphont sy'n rychwantu gorlifdir Afon Gwyrfai, 6m uwchben y dirwedd gyfagos, i ganiatáu i'r gorlifdir barhau i weithredu yn ystod llifoedd uchel a lleihau perygl llifogydd mewn mannau eraill.



Pwll arafu ger Cylchfan Meifod.



Sianel dargyfeirio Afon Rhyd.

## Treftadaeth ddiwylliannol

Mae treftadaeth ddiwylliannol wedi ei hystyried yn ofalus ers cyfnod dylunio cynnar y cynllun a bydd y gwaith yn parhau hyd yn oed ar ôl i'r ffordd agor.

Roedd peth o'r archaeoleg a gloddiwyd yn ystod y gwaith cychwynnol o glirio'r llwybr i'w ddisgwyl ond gwnaed ambell ddarganfyddiad annisgwyl hefyd.

Mae'r archaeoleg a ddarganfuwyd yn darparu taith drwy hanes Gwynedd o'r Cyfnod Mesolithig, tua 10,000 o flynyddoedd yn ôl, hyd at gyfnod diweddar a chanfuwyd tystiolaeth o bob cyfnod o bwys ar hyd y ffordd.



Ffordd Rufeinig a ddarganfuwyd rhwng Cylchfannau Cibyn a Bethel.

Mae'r darganfyddiadau a wnaed yn cynnwys bwyell garreg neolithig, a fyddai wedi cael ei defnyddio gan ffermwyr cynnar i glirio coetir, rhan o'r ffordd Rufeinig o Segontium i Ddyffryn Conwy, ac anheddiad canoloesol cynnar ger Dinas.

Cafwyd hyd i foncyff gwag, a allai fod wedi bod yn ganŵ wedi'i aildefnyddio, o dan dwmpath wedi'i losgi o'r Oes Efydd ger Cylchfan Bethel. Roedd twmpathau wedi'u llosgi yn fannau lle byddai dŵr wedi cael ei gynhesu drwy ollwng cerrig poeth i mewn i gafnau o ddŵr. Cafwyd hyd i fynwent amlosgi fechan, sydd hefyd yn dyddio o Oes yr Efydd, gerllaw.

Mae gan Wynedd hanes cyfoethog, ond mae arteffactau archeolegol yn gymharol brin, gan fod cymaint o'r hyn a ddysgwn o gloddio archeolegol yn deillio o ddadansoddiad gwyddonol.

Mae'r asesiad a'r dadansoddiad gwyddonol o'r deunydd a adenillwyd yn ystod y gwaith archeolegol yn parhau a bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w gwblhau. Bydd y gwaith yn cyfrannu at well dealltwriaeth o hanes y cymunedau ar hyd y ffordd dros y 10,000 o flynyddoedd diwethaf.

Pan fydd yr holl waith dadansoddi wedi'i gwblhau bydd yr arteffactau'n cael eu hadneuo yn Storiel, Bangor – yr amgueddfa leol ar gyfer Gwynedd.



Pren o'r Oes Efydd o gafn twmpath wedi'i losgi ger Cylchfan Bethel wedi'i lanhau.



Breichled efydd gyda chynnwys plwm uchel a ganfuwyd ger Cylchfan Meifod.



Pennau saethau ardraws fflint Neolithig.

## Cynaliadwyedd

Mae Balfour Beatty Jones Bros yn buddsoddi mewn pobl a thechnoleg i wella eu gweithrediadau a chynaliadwyedd gweithrediadau safle er mwyn osgoi gwastraff, lleihau adnoddau ac ynni.

Nodwyd cyfle i addasu'r defnydd o dir a dyluniadau i wella logisteg a lleihau'r ôl troed carbon. Gwnaed ymrwymadau gan bob partner prosiect yn ystod y cam cynnar y contract er mwyn sicrhau bod manteision amgylcheddol yn cael eu gwireddu. Fe wnaeth prynu hen chwarel glai a gwaith brics gerllaw'r prosiect arwain at ddarparu deunyddiau llenwi a chyfleuster gwaredu priddoedd anadweithiol.

Roedd hyn yn ei dro yn lleihau'n sylweddol y defnydd o CO<sub>2</sub> ar gyfer gwaith safle, gan leihau'r effaith ar draffig lleol a arweiniodd at lai o allyriadau carbon.

Roedd y prosiect yn cynnwys gwrthgloddiau sylweddol i greu ffordd drwy dopograffeg heriol ac amodau tir. Symudwyd cyfanswm o tua 4 miliwn tonnell o bridd a cherrig i greu'r ffordd osgoi, a gwnaed hyn yn bosibl drwy ddefnyddio ffordd gludo'r safle, sy'n 10km o hyd, a adeiladwyd ar ddechrau'r prosiect. Roedd ffordd gludo'r safle yn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau'n cael eu cludo gan ddefnyddio tryciau dympio yn y safle sy'n gweithio o fewn ffin y safle, gan osgoi defnyddio'r briffordd gyhoeddus leol.

O'r graig a gafodd ei ffrwydro a'i chloddio, cynhyrchwyd 700,000 tonnell o cerrig mân adeiladu i'w defnyddio yn yr haenau palmant ac i ôl-lenwi strwythurau, gan leihau'r angen i fewnforio cerrig mân a chyfrannu at arbed bron i 200,000 o symudiadau priffyrdd cyhoeddus.

Gwaredwyd deunydd dros ben a gynhyrchwyd o'r prosiect yn Chwarel Seiont sydd wedi'i lleoli wrth ymyl y ffordd gan arbed 600,000 tonnell o waredu mewn safleoedd tirlenwi allanol

Arbedwyd cyfanswm o 4,100 tonnell o CO<sub>2</sub> drwy ddefnyddio llwybrau ar y safle ac arbedwyd 1,730,000 arall o filltiroedd drwy ddefnyddio Priffyrdd Cyhoeddus.



# DIOGELWCH

## Diogelwch ar y safle

Dechreuodd Menter ar y Cyd Balfour Beatty Jones Bros ar ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd ar y safle ym mis Chwefror 2019. Roedd y tîm cyflawni gweithredol yn cynnwys 60 o staff o ddau bartner y gyd-fenter, a chafodd hyn ei gryfhau gan aelodau o'n partneriaid allweddol yn y gadwyn gyflenwi. Dyma rai o'n prif beryglon a'n risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith:

- Cyflawni 17 o strwythurau mawr a chloddwaith sylweddol
- Gweithrediadau codi
- Cloddio
- Draeniad dwfn
- Rhyngwyneb â llwybrau cyhoeddus presennol
- Gweithio mewn cyrsiau dŵr ac o'u hamgylch
- Peiriannau trwm gan gynnwys cloddwyr mawr a fflyd o tua 35 o lorïau dympio
- Ffrwydro

Roedd y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Balfour Beatty a Jones Bros, gan ddarparu cyngor ac atebion iechyd a Diogelwch cadarn i'r tîm gweithredol, gan gynnwys:

- Adolygiad o ddogfennau
- Teithiau ac arolygiadau safle dyddiol
- Cyfarfodydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd
- Hyfforddiant
- Cyfarfodydd ymgynghori'r gweithlu
- Swyddogaethau deiliaid dyletswydd gan gynnwys cymorth cyntaf, marsial tân, iechyd meddwl, hyfforddiant diogelwch ymddygiadol a chydymffurfiaeth COVID-19.



### Diwrnod iechyd a diogelwch

Gwreichion yn hedfan yn ystod arddangosiad byw o ddiogelwch llinell bŵer. Mae SP Energy yn darparu arddangosiad byw ar ddiogelwch llinell bŵer, gan ddangos gweithdrefnau cywir i'w dilyn mewn amrywiaeth o senarios pe bai eitem o offer yn cyffwrdd llinell bŵer fyw. Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus gyda nifer ardderchog o fwy na 200 o bobl ar y safle. Roedd y tîm yn falch bod y digwyddiad wedi cael effaith werthfawr ar godi ymwybyddiaeth o arferion gorau Iechyd a Diogelwch.



Keaton Philips (chwith) yn derbyn taleb rhodd o £25 am y cerdyn arsylwi Iechyd a Diogelwch gorau yn ystod mis Hydref 2021.



Sesiwn hyfforddiant i weithlu'r cynllun gan Fedra' i Iechyd Meddwl GIG Gogledd Cymru.



Carreg filltir o 500 diwrnod a 500,000 o oriau gwaith heb i ddamwain gael ei chofnodi

Gydag ymagwedd ragweithiol ac ymarferol iawn at lechyd a Diogelwch, fe wnaeth y tîm gynnydd da o ran datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol ac agored.

Mae perfformiad o ran lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd wedi aros yn uchel drwy gydol cylch bywyd y prosiect. Fe wnaethom ddathlu llawer o gerrig milltir allweddol, gyda dros 1.3 miliwn o oriau wedi'u gweithio, neu 1,100 diwrnod yn gweithio ar y safle. Mae hwn yn gyflawniad gwych ar brosiect mor gymhleth a heriol.

Yn ogystal, fe wnaeth tîm y prosiect addasu i'r heriau a grëwyd gan bandemig COVID-19 na wnaethant eu rhagweld, a rheoli'r rhain.

Drwy gydol y prosiect, mae'r tîm wedi ymgysylltu â'r gweithlu ac wedi hyrwyddo diwylliant tryloyw, diwylliant o beidio â bwrw bai, gydag unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi digwydd yn cael eu hadolygu a'u hymchwilio'n gadarn, ac unrhyw ddysgu yn cael ei rannu ar draws y prosiect a'r busnesau ehangach.

Dathlodd tîm a gweithlu'r prosiect cyfan y cyflawniadau lechyd a Diogelwch gyda'i gilydd ac mae cam cyflwyno'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus a chyffrous, gyda heriau i sicrhau bod ein holl bobl yn mynd adref yn ddiogel ac yn iach bob dydd at eu teuluoedd a'u hanwyliaid.

## Diogelwch oddi ar y safle

Nid oedd cyfleu neges bwysig iechyd a diogelwch wedi'i gyfyngu i'r safle'n unig.

Croesawodd y Gyd-fenter sefydliadau partner a ffermwyr lleol i'r diwrnod lechyd a Diogelwch gynhaliwyd ar safle ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd i helpu i wella iechyd a diogelwch mewn diwydiannau adeiladu ac amaethyddol.

Roedd gan y cynllun swyddog Cyswllt Cyhoeddus penodol ar y safle, oedd yn ymgysylltu â'r gymuned ehangach a grwpiau lleol i barhau i hyrwyddo'r neges o berygl o amgylch safleoedd adeiladu. Gosodwyd arwyddion a rhwystrau i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.



Diwrnod lechyd a Diogelwch, gyda peiriannau yn cael ei ddangos i ffermwyr lleol.

## Cefnogi amcanion llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Roedd y cynllun yn ymfalchïo mewn buddsoddi'n lleol, cefnogi busnesau a darparu cyfleoedd i gwmnïau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol, gan ddarparu manteision ychwanegol i'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt. Mae bron i £70 miliwn wedi'i wario gyda busnesau yng Nghymru ac o hwnnw mae tua £12 miliwn wedi'i wario gyda BBaCh (Busnesau Bach a Chanolig) yng Nghymru. Mae gwariant gyda busnesau lleol (nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol a'r gwaith adeiladu) gan ein gweithlu ar wasanaethau lleol dros gyfnod y prosiect wedi dod i gyfanswm o tua £2 miliwn.

Mae'r cynllun wedi cynnig cyfleoedd sylweddol yn y gogledd i hybu'r economi leol a chefnogi pobl leol. Roedd cyfleoedd yn bodoli i gefnogi busnesau lleol, cyflenwyr lleol a darparu cyflogaeth i'r boblogaeth leol.

Nodwyd y cyfle hwn yn gynnar yn y cam ECI ac fe'i hymgorfforwyd ym mhrosesau recriwtio a chaffael tîm y prosiect, gan ganiatáu amser i recriwtio a hyfforddi prentisiaid newydd cyn dechrau'r prosiect

Yn ystod y cyfnod adeiladu, fe wnaethom gynnal 93% o'r gweithlu o ardal y gogledd, a 31% yn byw o fewn radiws o 10 milltir. Fe wnaethom hefyd gyflogi a hyfforddi 36 o raddedigion a phrentisiaid a darparu profiad gwaith i 15 o bobl gan ddarparu dros 234 diwrnod o gynlluniau hyfforddi ffurfiol.

Mae datblygiad y ffordd osgoi wedi rhoi hwb i economi'r rhanbarth ac wedi rhoi cyfleoedd sylweddol i bobl a busnesau lleol a fydd yn gadael gwaddol parhaol i'r ardal.



Mae Will Jones a Sion Owen (uchod) yn byw yn agos at ble mae'r ffordd osgoi yn cael ei hadeiladu, felly maen nhw'n deall yn uniongyrchol fanteision y cynllun.

Yn cael profiad o fywyd ar brosiect mawr yw myfyrwyr Will Jones ac Elis Roberts (isod). Meddai Will Jones, o Ruthun: "Roedd y staff yn gefnogol dros ben a rhoesan't o'u hamser i'm helpu setlo mewn i'r gwaith. Roeddent yn fy nhrin fel person proffesiynol, gan wneud i mi deimlo fy mod yn rhan o'r tîm." Ychwanegodd Elis Roberts o Felin y Wig, Sir Ddinbych: "*Mae nhw'n dîm ardderchog a chefais gyfle gwych i weld sut ament yn gweithio. Cefais groeso ac roedd yn braf cael bod yn rhan ohono.*"



Hugh Jones a Rhys Jones (chwith) – Dywedodd Hugh Jones- "*Roeddwn wrth fy modd pan gefais fy newis ar gyfer y prosiect ffordd osgoi. Cafodd my mhartner babi ac roedd hyn yn caniatáu i mi weithio'n agosach i adref.*" Ymunodd Rhys Jones o Nefyn â'i ewythr Gwyn Morris yn y cwmni a dywedodd fod y cyfle i weithio ar gynllun lleol mor arwyddocaol yn gyfle cyffrous.



# YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

## Rhoi'r Wybodaeth Ddiweddaraf i Bawb

Roedd y cynllun yn rhyddhau cylchlythyrau dwyieithog addysgiadol oedd yn cael eu dosbarthu i'r gymuned leol, gan dynnu sylw at gerrig milltir a chyflawniadau gyda gwybodaeth allweddol am y cynllun, gan ganolbwyntio ar eitemau sydd ar gael i'r cyhoedd. Gweithiodd tîm y safle'n agos gyda grwpiau cymunedol a'r cynghorau cymuned i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd y prosiect. Dosbarthwyd copïau o'r cylchlythyr i gartrefi ger y safle adeiladu ac roeddent ar gael i'w casglu am ddim yn y swyddfa bost leol, swyddfydd cynghorau cymuned a chanolfan ymwelwyr ar y safle. Penodwyd swyddog cyswllt cyhoeddus i gysylltu â thirfeddianwyr, trigolion, busnesau a defnyddwyr ffordd lleol.

**Newyddion** Balfour Beatty JONES BROS Caernarfon a'r Bontnewydd Yr haf 2021

**Ffordd Osgoi**

**Cydweithio gan ddod â gwelliannau cadarnhaol i'r dref**

Mae Ffordd Osgoi Caernarfon a'r Bontnewydd yn cael ei haddurno. Cydweithio gyda'r prosiect am atgynhau, sef:

- Balfour Beatty a Jones Bros Civil Engineering UK (cwmnïau)
- NCCP T&CP Brithon (olwyn)
- Cwmnïau (ymgynghorwyr masnachol)
- Ffôn cyswllt gyda'r gynghorau cymunedol yn agored
- Ffôn cyswllt gyda'r gynghorau cymunedol yn agored
- Cwmnïau Services cymunedol (parc)
- Cwmnïau masnachol
- Cwmnïau Swyddfa (gwybodaeth)
- Cwmnïau (gwybodaeth)

**Y Ffordd yn Dechrau Siapio**

Mae gwaith wynebu'r ffordd wedi dechrau ac mae'r cynllun ar amser i agor yn y gwanwyn 2022.

Gwneid cynnydd gyda'r effeithiau cerddedol a beiddio, ac mae'r gwaith a addellu llwybrau bwrta newydd wrth ysgolffannau'r Goll a Bethel wedi dechrau...



Uchod, camodd y cynllun i mewn i fenthyg generadur fel y gallai'r rinc iâ ar y Maes yng Nghaernarfon fynd yn ei flaen ar ôl cael problemau o ran dod o hyd i gyflenwad pŵer



Uchod, daeth cyn-filwyr Caernarfon at ei gilydd i lanhau mynwent Llanbeblig i helpu i ddod o hyd i feddau 47 o Filwyr y Rhyfel Byd Cyntaf. Helpodd y Gyd-fenter y tîm o gyn-filwyr oedd yn gwirfoddoli i symud 20 tonnelli o wastraff llechi (a roddwyd gan Chwarel y Penrhyn) i'r fynwent i helpu i gynnal a thacluso'r llwybrau.

## Cefnogi grwpiau cymunedol lleol

Mae'r cynllun yn gefnogwr brwd o Grwpiau Cymunedol Lleol ac mae wedi bod yn rhan o weithgareddau amrywiol sydd â'r nod o ddarparu gwell profiadau i'r ardaloedd lleol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys darparu pridd ar gyfer pentref lleol i greu gwelyau blodau ar gyfer prosiect plannu blodau, rhoi dillad a theganau plant i fenter gymunedol leol O Law i Law, darparu gatiâu newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Felinwnda, benthyca goleuadau solar i Glwb Pêl-droed Caernarfon a rhoi 12 tonnelli o bren wedi'i adennill i ganiatáu i ysgolion cynradd adeiladu eco-dai gwydr.

Daeth y cynllun o hyd i gyfleusterau ailgylchu papur lleol, sy'n cael ei redeg gan Antur Waunfawr- menter gymdeithasol flaenllaw leol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ag anableddau dysgu yn eu cymuned eu hunain.



Fe wnaeth y Gyd-fenter ddarparu ffensys a chefnogaeth i Glwb Pêl-droed Caernarfon mewn Twrnaint Pêl-droed leuenticid yn y gogledd.

# Gwaith Elusennol

Mae tîm cyd-fenter Balfour Beatty Jones Bros wedi codi arian hanfodol ar gyfer elusen ac wedi cynnig cymorth ar gyfer achosion da lleol. Dros gyfnod y prosiect, cynhaliodd tîm y safle 15 o ddigwyddiadau codi arian unigol. Codwyd y swm gwyth o £19,373. Mae rhai digwyddiadau'n cynnwys codi £925 ar gyfer ysbyty cymunedol Eryri, rhoi 270kg o ddillad i fanc dillad lleol Warws Werdd, £747 yn cael ei wario ar fwyd ar gyfer Banc Bwyd Arfon, gwerth £890 o deganau wedi'u rhoi i Apêl Teganau Nadolig Ysbyty Gwynedd 2020, £1,100 wedi'i roi i Ysbyty Plant Alder Hey a £1,052 wedi'i godi ar gyfer BHF Cymru.

Diolch yn fawr i holl dîm y ffordd osgoi am estyn i'w pocedi am eu rhoddion hael!



£1,052 wedi'i godi er budd BHF Cymru ar ôl i Helen Bonney (peiriannydd y cynllun) nofio hyd y Sianel.



270.5kg o ddillad wedi'u rhoi i Elusen Warws Werdd mewn partneriaeth ag Ysgol Gynradd Maesincla a wnaeth elwa £54.10 o'r achos da.



£925 wedi'i godi er budd Elusen Cyfeillion Ysbyty Eryri yn dilyn digwyddiad codi arian cinio ar y safle.



£288.58 wedi'i godi er budd Elusen Gafael Llaw ar ôl i dîm y safle weini rhywfaint o brydau cartref ymysg ei gilydd.



Un o lawer o roddion bwyd a phethau ymolchi i Fanc Bwyd Arfon gan weithwyr y safle.



Gwerth £890 o deganau wedi'u rhoi i Ysbyty Gwynedd er budd eu Hapêl Teganau Nadolig 2020.



## Taith Gerdded Elusennol 5k

Ar ddydd Sul 5ed o Rhagfyr agorwyd rhan o'r ffordd osgoi a oedd wedi'i chwblhau i'r cyhoedd am ddiwrnod i roi cyfle iddyn nhw gael cipolwg cyn yr agoriad swyddogol, pan gynhaliodd y cynllun ddwy daith gerdded elusennol 5km o hyd. Roedd hwn yn gyfle perffaith i dîm y cynllun ddiolch i'r gymuned am eu cefnogaeth wrth adeiladu'r ffordd osgoi a chyfle gwyh i godi arian ar gyfer achosion da lleol. Yr elusennau dan sylw oedd Gafael Llaw, Ffrindiau Ysbyty Eryri a Fedra'i Iechyd Meddwl fel rhan o Elusen Awyr Las y GIG. Roedd wyth ysgol gynradd leol yn y dalgylch hefyd a gymerodd ran i godi arian ar gyfer eu cronfeydd cymdeithas rhieni ac athrawon.



Cymerodd dros 1,100 o bobl ran yn y diwrnod a chafodd dros £4,800 eu godi. Cafodd yr arian eu rannu rhwng y tair elusen a cronfeydd cymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgolion gynradd a gymerodd ran.



Cafodd £8,300 ei roddi yn ychwanegol tuag at y tair elusen leol gan gyflenwyr ac isgcontractwyr y cynllun. Diolch yn arbennig i'r cwmnïau canlynol am eu rhoddion hael tuag at Gafael Llaw, Ffrindiau Ysbyty Eryri ac Fedar'i Iechyd Meddwl y GIG:

Oil 4 Wales Ltd, R Betts Construction Ltd, Lowther Forestry, GEWS Ltd, Celtest Company Ltd, L & R Roadlines Ltd, Hitex International Ltd, Rees Plant Hire, Brookes & Sons Tarpaulins Ltd.

## Ymgysylltu ag Ysgolion Cynradd

Mae'r cynllun wedi rhyngweithio â 341 o ddisgyblion ysgol gynradd lleol o 10 ysgol wahanol. Yn gynnar yn y prosiect, ymgysylltodd y cynllun â disgyblion lleol i gynhyrchu gwaith celf i'w osod wrth ymyl y bont dros dro oedd uwchben yr A487. Pan chafodd y gwaith celf eu roi gyda'i gilydd roedd yn creu enwau 'Caernarfon a Bontnewydd'. Cafodd yr arwyddion eu osod ar y ffens wrth ddynesu at y bont.

Un o uchafbwyntiau 2021 oedd agor trosbont newydd Ffordd Ty'n Llan. Cafodd disgyblion Ysgol Gynradd Felinwnda y fraint o'i hagor a nhw oedd y bobl gyntaf i gerdded ar draws y bont – profiad y byddant yn ei chofio am byth.



Gwaith celf a gynhyrchwyd gan ddisgyblion lleol a osodwyd ar bont dros dro uwchben cefnffordd yr A487.



Ysgol Gynradd Porth y Felin yn ystod wythnos addysg STEM yn dysgu am y ffordd osgoi.



Disgyblion Ysgol Gynradd Felinwnda oedd y cyntaf i groesi Ffordd Ty'n Llan.

Mae'r cynllun hefyd wedi helpu nifer o ysgolion cynradd lleol i wneud gwelliannau i'w tiroedd. Fe wnaeth ddarparu gathiau newydd ar gyfer ysgol gynradd Felinwnda yn ogystal â chlirio hen ardal tŷ chwarae.

Gofynnodd Ysgol Syr Hugh am rywfaint o help i glirio eu hardal gardd ac fe wnaeth timau'r Gyd-fenter ddefnyddio ymagwedd ymarferol i wneud hynny. Cawsant hefyd 12 tunnell o bridd a phren i helpu'r disgyblion i adeiladu eu Eco-Dai Gwydr eu hunain.

Hefyd, darparwyd pridd i ysgol gynradd y Felinheli i helpu'r disgyblion gyda'u garddio.



Ysgol Gynradd y Gelli – Blwyddyn 2 yn dysgu drwy chwarae.

## Croeso Cynnes i Bawb

Mae'r cynllun wedi croesawu nifer o ymwelwyr gan gynnwys myfyrwyr Peirianeg, Cynghorwyr ac aelodau'r Cynulliad, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd.



Uchod, ymwelodd cymdeithas ddaeareg yn y gogledd â safle ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd i gychwyn ar gyfle astudio "unigryw". Gwahoddodd y cynllun ddirprwyaeth o Gymdeithas Ddaeareg Gogledd Cymru i gynnal asesiadau o'r tir. Roedd samplau o wenithfaen Cyn-Gambriaid o Blas Menai (ar y dde uchaf), sy'n cael ei alw'n eang yn blwton Gwenithfaenol Twt Hill yn un o nifer o ddarganfyddiadau o'r ymweliad. Dywedodd y Cadeirydd Jonathan Wilkins: "Rydym fel arfer yn ymweld â lleoliadau enwog yn y gogledd ond mae gwaith fel ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd yn gyfle unigryw i weld pethau nad oes unrhyw un wedi edrych arny'n nhw erioed o'r blaen."

Gyferbyn, ar ymweliad â phrif swyddfeydd y safle ym mis Chwefror 2020, Ken Skates AS, Gweinidog Gogledd Cymru ar y pryd, lle treuliodd amser gyda'r prentisiaid presennol yn dysgu eu sgiliau ar y prosiect yn ogystal â sgwrsio â'r peirianwyr graddedig. Cafodd olwg uniongyrchol hefyd ar ran o'r ffordd osgoi a oedd yn cael ei hadeiladu.

Dywedodd: *"Mae prosiectau fel hyn yn hwb i'r ardal yn ystod y gwaith adeiladu hefyd, drwy ddarparu cyfleoedd i brentisiaid a chyflenwyr lleol."*



Ar y chwith, Grŵp Cyswilt Amgylcheddol (ELG) y cynllun.

Mae ELG y cynllun yn cynnwys gwahanol gyrfw amgylcheddol a rhanddeiliaid sydd wedi ymwneud â datblygiad y ffordd osgoi a'r ymrwymadau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae'r ymwelwyr wedi mwynhau teithiau o amgylch y ffordd osgoi ac wedi dysgu beth sydd dan ei angen wrth ddylunio, rheoli ac adeiladu Prosiect Peirianeg Sifil mawr.

## PARTNERIAID Y CYNLLUN

Mae **Cyd-fenter Balfour Beatty Jones Bros** wedi cydweithio ar bedwar cynllun blaenorol. Dechreuodd y berthynas ar ffordd osgoi Porthmadog ac mae wedi parhau gyda chynlluniau ffermydd gwynt ym Mhen y Cymoedd a Clyde, yn ogystal â gorsaf bŵer Wylfa Newydd. Rydym yn hyderus y bydd ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd mor llwyddiannus â ffordd osgoi Porthmadog o ran sicrhau gwelliant cadarnhaol i'r dref.

Mae **Balfour Beatty Ltd** yn grŵp seilwaith rhyngwladol blaenllaw gyda 26,000 o weithwyr. Rydym yn ariannu, datblygu, adeiladu, cynnal a gweithredu'r seilwaith sy'n cefnogi economïau cenedlaethol ac yn darparu prosiectau sydd wrth wraidd cymunedau lleol. Maen nhw wedi creu adeiladau a seilwaith eiconig gan gynnwys: cynllun gwella'r A14 gwerth £1.5 biliwn - prosiect ffordd fwyaf Prydain; Prosiect theatr harbwr o'r radd flaenaf Hong Kong gwerth \$5.5 biliwn; a'r llinell Rheilffordd Cymudwyr Metro'r Gogledd 12.5 milltir yn Colorado, USA.

Mae **Jones Bros Civil Engineering UK** yn contractwr blaenllaw sy'n cyflogi tua 500 o bobl. Mae'n rhedeg ei gynllun prentisiaeth ei hun o gyfleuster pwrpasol yn Ninbych, gyda bron i hanner y gweithredwyr ar safleoedd presennol wedi dechrau ar eu gwaith fel hyn. Maen nhw hefyd yn rhedeg prentisiaeth uwch peirianeg sifil gyda Choleg Cambria, sy'n arwain at gymwysterau lefel gradd. Mae'r cwmni sydd ag un o'r fflydoedd planhigion trwm mwyaf yn y DU, yn ymfalchïo mewn defnyddio partneriaid ac is-gontractwyr y gadwyn gyflenwi leol lle bo hynny'n bosibl er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar gyflogaeth ac economaidd leol.

Mae gan **WSP - Dylunydd y Contractwr** dros 250 o staff mewn swyddfeydd / cartrefi yng Nghymru ac rydym wedi bod yn datblygu'r prosiect o'i gysyniad â Llywodraeth Cymru yn 2008. Fe wnaethant ymgymryd â'r dyluniad manwl, a darparu modelu a delweddu 3D ar gyfer yr Arddangosfeydd Cyhoeddus a'r Ymchwiliad, gan gynorthwyo rhanddeiliaid i ddeall gwahanol agweddau ar y cynllun. Defnyddiwyd y model dylunio gan y Gyd-fenter i asesu'r materion adeiladu a nodi meysydd ar gyfer prosesu deunyddiau er mwyn lleihau'r effaith ar y briffordd gyhoeddus. Fe wnaeth hyn alluogi'r tîm i ddatblygu dyluniad effeithlon a chost-effeithiol.

Mae **TACP (UK) Ltd. - Ymgynghorwyr Amgylcheddol** yn darparu dylunio tirwedd, ecoleg, rheoli adnoddau naturiol, asesu amgylcheddol, cynllunio a chydlynu, rheoli amgylcheddol a thirwedd, treftadaeth tirwedd a dadansoddi data. Mae TACP wedi bod ar y prosiect ers y cam dewis ffordd cynnar yn 2008, a daeth â phrofiad o weithio fel rhan o Asiant y Cyflogwr a thîm y Contractwr ar sawl cynllun lle maen nhw wedi darparu atebion o ansawdd uchel.

Mae **Arcadis - Asiant Cyflogwr Arweinol** wedi bod yn bresennol yng Nghymru ers dros 70 mlynedd ac mae ganddynt dros 100 o bersonél sy'n gweithio ar gynlluniau trafndiaeth ar draws rhwydweithiau strategol a lleol. Penodwyd Arcadis yn 2014 i gefnogi Llywodraeth Cymru o benodi'r Cysylltydd ECI i gwblhau'r prosiect. Mae Arcadis wedi gweithio gyda'r Gyd-fenter i ddatblygu'r cynllun drwy'r broses Statudol. Yn ystod y gwaith adeiladu, mae Arcadis wedi gweinyddu'r contract rhwng Llywodraeth Cymru a'r Gyd-fenter.

Mae gan **Ramboll - Cynghorydd Technegol yr Asiant Cyflogwr** dros 16,000 o Arbenigwyr yn fyd-eang ac mae ganddo hanes o gyflawni dros Lywodraeth Cymru. Maen nhw wedi darparu arbenigedd lleol ym mhob agwedd dechnegol sy'n gysylltiedig â chynllun CABB yr A487 o ddatblygiadau hyd at adeiladu, gan gynnwys ymgysylltu â'r broses statudol, rheoli'r broses adolygu technegol ac yswiriant y safle yn ogystal â swyddogaethau cyswllt â rhanddeiliaid, delio â phartïon yr effeithir arnynt i sicrhau bod darpariaeth addas ar eu cyfer.

## Diolchiadau

Diolch yn arbennig i Gyngor Gwynedd, staff a chynghorwyr ac i Gynghorau Cymuned Lleol am eu harweiniad a'u cymorth yn ystod y gwaith adeiladu. Roedd eu gwybodaeth a'u mewnbwn lleol yn amhrisiadwy ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae'r diolch mwyaf o waelod calon yn mynd i drigolion a chymuned ehangach Caernarfon am eu hamynedd, eu dealltwriaeth, a'u cydweithrediad.

Fe wnaeth COVID-19 a Brexit gyflwyno amgylchedd mwy heriol i'r holl weithlu, cyflenwyr ac is-gontractwyr ar y prosiect. Fodd bynnag, gyda chadw pellter cymdeithasol, arferion gwaith diwygiedig a mesurau rheoli newydd ar waith, mae eu hymrwymiad, eu cadernid a'u penderfyniad i gadw pawb yn ddiogel wrth oresgyn y rhwystrau hyn wedi golygu bod adeiladu ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd yr A487 wedi bod yn ymdrech tîm eithriadol a arweiniodd at gwblhau'r rhaglen o flaen ei amser. Diolch i nifer o fusnesau lleol a chyflenwyr adeiladau gan gynnwys y rhai a enwir isod.

Cwmni Sgaffaldiau Môn Cyf	J McCann & Co Ltd
Baldwins Crane Hire Ltd	Janson Bridging (UK) Ltd
Balfour Beatty Ground Engineering Ltd	John A Hughes Ltd
Balvac Ltd	Jones & Jones Contractors
Barrier Services Ltd	L&R Roadlines Ltd
Brownlee Dean	Linear Recruitment
C&A Asbestos Removal	Lowther Forestry Group Ltd
C&N Electrical	NRG Engineering Services Ltd
Cambrian Services Ltd	Oxford Archaeology Ltd
CC Geotechnical Ltd	Pabo Tree Services Ltd
Celtest Co. Ltd	Panorama Cymru
Celtic Cleaning Services Ltd	Quantum Traffic Management Ltd
Centara Ltd	R Betts Construction Ltd
Cleveland Bridge UK	Saferoad VRS Ltd
Corvus Security Ltd	Shay Murtagh (Precast) Ltd
Coffey Geotechnics Ltd	Sheet Piling UK Ltd
Derek Pritchard Engineering Services Ltd	Siemens Mobility Ltd
Dylan Roberts Cyf	Socotec UK Ltd
E.Flood Construction Ltd	Stephenson Safety Consultant Ltd
ENZO Corrosion Services Ltd	Sumo Services Ltd
EPC (UK) PLC	Tilhill Forestry Ltd
Evans Wolfenden Partnership Ltd	UK Lining Ltd
Fastglobe Mastics Ltd	Universal Sealants Ltd
Cyngor Sir Gwynedd	Woodmen UK Ltd
Gwynedd Environmental Waste Services Ltd	Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru
GRE Millington Contractors Ltd	WJ Structures Ltd
Hays Recruitment Ltd	

Pont yn Lôn Ty'n Llan



Bridge at Ty'n Llan Road

Pont Cerddwr/Beicio Ceriw



Ceriw Pedestrian/Cycle Bridge

Traphont dros Afon Seiont




Viaduct over River Seiont

Cylchfan Plas Menai



Plas Menai Roundabout



Traphont dros Afon Gwyrfaï



Viaduct over River Gwyrfaï

Cylchfan Meifod



Meifod Roundabout

Cylchfan Bethel



Bethel Roundabout

Torriad Plas Menai



Plas Menai Cutting